# Gofal dros geffylau mewn cystadlaethau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am geffylau mewn cystadlaethau. Bydd yn ofynnol i chi gydymffurfio â rheolau a chwrteisi'r gystadleuaeth briodol.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cydymffurfio â rheoliadau a chwrteisi'r gystadleuaeth briodol bob amser
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. gofalu am y ceffylau wrth gyrraedd cystadlaethau, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. adnabod unrhyw arwyddion o salwch ac anaf i'r ceffylau a hysbysu'r person priodol ynghylch y rhain
6. rhoi porthiant, dwr ac ymarfer i'r ceffylau cyn, yn ystod ac ar ôl cystadlaethau, yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. paratoi'r ceffylau ar gyfer y gystadleuaeth ar yr adeg briodol, yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. rheolau a rheoliadau'r gystadleuaeth a phwysigrwydd cadw atynt
3. ymddygiad a chwrteisi derbyniol ar gyfer unigolion mewn cystadlaethau
4. pasbortau a gofynion hunaniaeth ceffylau
5. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
6. adweithiau ceffylau i amgylchedd cystadleuaeth
7. sut i ofalu am y ceffylau mewn cystadlaethau
8. sut i baratoi ceffylau ar gyfer cystadlaethau
9. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Gofalu am geffylau yn ystod dwy gystadleuaeth wahanol.

## Geirfa

Gofal:

- dŵr
- porthiant
- cynhesu
- tawelu

Gofal dros geffylau mewn cystadlaethau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq221 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; marchogaeth; iechyd a lles anifeiliaid |